Adroddiad Cyfarfod 13:11:19
'Dolig yn Dwad' – trefnu blodau gyda Cecile Roberts

Yng nghyfarfod Tachwedd cafodd yr aelodau ymlacio yn braf wrth drefnu blodau tymhorol gyda Cecile Roberts. Roedd pawb wedi dod â'u blodau eu hunain ynghyd â sisyrnau addas ac roedd festri Capel Cysger yn lliwgar ac yn llawn bwrlwm wrth i bawb fynd ati i greu addurniadau deniadol cyn mynd a hwy adref i'w dangos.

Cyn mynd ati i osod y blodau roedd gan ein Llywydd Mair Read ychydig o newyddion i'w rannu. Cydymdeimlwyd gyda Rhian Hughes sydd wedi colli ei brawd, ac anfonwyd cofion cynhesaf at wr Delyth, sef Morlais, sydd yn yr ysbyty. Dymunwyd y gorau i Eleri Warrington sy'n dathlu penblwydd arbennig.

Cynhaliwyd Cwis Hwyl Cenedlaethol Merched Y Wawr ar nos Wener Tachwedd 8fed ac aeth dau dîm draw o gangen Bethel i Pant Du i gymryd rhan. Yn rhyfedd iawn daeth y ddau dîm yn gydradd drydydd yn Arfon! Rhaid sôn hefyd fod tair o'r gangen wedi bod yn brysur yn trefnu ac yn marcio ar y noson, sef Gwyneth Jones, Mair Price ac Anne Elis. Llongyfarchiadau mawr i gangen Caernarfon ddaeth yn gyntaf nid yn unig yn Arfon, ond trwy Gymru!

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Bethel ac i'r rhai fu'n trefnu a chynnal eisteddfod mor llwyddiannus.

Cofiwch am y Cinio Nadolig Mish Mash a'r Bingo i ddilyn i rai dros chwe deg oed yn y Neuadd ar brynhawn 18/12/19. Gellir archebu lle yn y Post.

Enillwyd y raffl gan Mair Price.

Nodyn atgoffa: bydd y bws I'r cinio Nadolig ar 11/12/19 yn cychwyn o Tan y Buarth am 7y.h.